TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

VTCT Diploma mewn Darparu TherapÃ¯au i Gleientiaid Ã¢ Chanser neu Gyflwr sy'n Cyfyngu ar Fywyd arall Lefel 4

Yn gryno

Bydd Diploma VTCT Lefel 4 mewn Darparu Therapïau ar gyfer cleientiaid gyda Chanser neu Gyflyrau Eraill sy'n Cyfyngu ar Fywyd yn eich paratoi chi i weithio mewn lleoliad gofal iechyd yn darparu therapïau cyflenwol i gleientiaid sy'n dioddef o gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd neu sy'n ddifrifol fregus. Mae therapïau cyflenwol ar gael yn eang i bobl gyda chanser ac, yn gynyddol, i gleifion sydd ag ystod o gyflyrau meddygol hirdymor a chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd. Caiff y therapïau hyn eu cyflwyno ochr yn ochr â thriniaethau traddodiadol, yn aml, yn y lleoliad gofal iechyd, a'r nod yw darparu cymorth seicolegol ac emosiynol trwy leddfu symptomau.

Dyma'r cwrs i chi os...

...Rydych chi'n therapydd cyflenwol cymwysedig.

...Rydych chi'n meddu ar gymhwyster Lefel 3 yn o leiaf un o'r tair therapi cyflenwol sef aromatherapi, adweitheg a thylino, gan gynnwys anatomi a ffisioleg.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth fyddaf yn ei wneud?

Trwy'r cymhwyster hwn byddwch chi'n datblygu eich sgiliau rhyngbersonol wrth ehangu eich dealltwriaeth am ddarparu therapïau i gleientiaid gyda chanser neu gyflyrau eraill sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i ddylunio i roi'r wybodaeth hanfodol i'ch cynorthwyo â darparu eich sgiliau therapiwtig mewn lleoliad clinigol.

Yn ystod y cwrs, byddwch chi'n astudio sgiliau cyfathrebu effeithiol, cynnal ymgynghoriadau â chleientiaid, cynllunio triniaethau a chadw cofnodion, ymarfer myfyriol, darparu triniaethau therapi cyflenwol, addasu triniaethau ac ymwybyddiaeth o gyfnodau salwch, strwythur a swyddogaeth gwasanaethau gofal iechyd, cysyniad a chyfrinachedd, cod proffesiynol moeseg a deddfwriaeth.

Ymhlith yr unedau sy'n cael eu haddysgu, mae:

Egwyddorion darparu therapïau cyflenwol mewn lleoliad gofal iechyd
Sgiliau rhyngbersonol ar gyfer y therapydd cyflenwol
Darparu therapïau cyflenwol i bobl â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau
Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd

Cewch eich asesu drwy greu portffolio o dystiolaeth, profion ysgrifenedig, arsylwadau ac astudiaethau achos i gynnwys ymarfer adfyfyriol. Bydd gofyniad i chi ddarparu eich cleientiaid eich hun ar gyfer astudiaethau achos a chynnal a chofnodi tystiolaeth ar gyfer o leiaf 8 astudiaeth achos a bydd o leiaf 3 o'r rhain yn derbyn o leiaf 2 driniaeth ddilynol.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Bydd angen i chi feddu ar hunan-gymhelliant, bod yn gyfeillgar gan feddu ar sgiliau rhyngbersonol da, dangos sgiliau meddwl yn feirniadol, gallu rheoli amser yn dda a gallu dangos lefel ardderchog o bresenoldeb a phrydlondeb.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio i arwain at gyflogaeth mewn amrywiaeth o rolau, naill ai'n hunan-gyflogedig, mewn clinig therapi cyflenwol neu gyfleusterau harddwch neu sba neu mewn practis priefat. Gall y cymhwyster hwn hefyd arwain at gyflogaeth mewn ysbyty, hosbis neu amgylchedd gofal iechyd arall.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Er prif ddiben y cymhwyster hwn yw paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, gall dysgwyr ddewis i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy gwblhau cymhwyster arbenigol pellach ar lefel 4 mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- VTCT Lefel 4 Diploma Mewn Aromatherapi ar gyfer Therapydd Cyflenwol

- VTCT Lefel 4 Diploma mewn Adweitheg ar gyfer Therapydd Cyflenwol

- VTCT Lefel 4 Diploma mewn Tylino ar gyfer Therapydd Cyflewnol

Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â chyflogwyr, cymdeithasau proffesiynol a rhanddeiliaid allweddol yn y sector therapi tylino. O ganlyniad i hyn, bydd yr wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd sy'n cael eu hennill yn rhoi'r cyfle gorau posibl ar gyfer dilyniant i gyflogaeth.

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gefnogi'n ffurfiol gan y sefydliadau canlynol:

- Ffederasiwn y Therapyddion Cyfannol

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd gofyniad i chi wisgo gwisg glinig ac esgidiau addas.

Mae ffioedd y cwrs yn cynnwys ffioedd dysgu a ffioedd cofrestru. Telir ffioedd dysgu wrth gofrestru. Os bydd angen, gall hyn fod trwy ddebyd uniongyrchol dros bum rhandaliad. Os yw'ch cyflogwr yn talu am eich cwrs, bydd angen cadarnhad ysgrifenedig o hyn er mwyn i'r coleg allu trefnu i anfon anfoneb ato.

Mae'n hanfodol eich bod chi'n gallu darparu cleientiaid addas fel astudiaethau achos ar gyfer eich asesiadau.